# Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## (HSS(2)-13-06)

### Dyddiad y cyfarfod: Dydd Iau 28 Medi 2006
### Amser y cyfarfod: 9.30am tan 12.00pm
### Lleoliad y cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 1, y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

#### Aelodau Cynulliad yn Bresennol

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Rhodri Glyn Thomas (Cadeirydd) | Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr |
| Brian Gibbons (Gweinidog) | Aberafan |
| John Griffiths | Dwyrain Casnewydd |
| Helen Mary Jones | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Jonathan Morgan | Canol De Cymru |
| Jenny Randerson | Canol Caerdydd |
| Karen Sinclair | De Clwyd |

#### Swyddogion yn Bresennol

| **Enw** | **Teitl swydd** |
|---|---|
| Ann Lloyd | Pennaeth yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Dr Tony Jewell | Y Prif Swyddog Meddygol |
| Richard Tebboth | Prif Arolygydd Dros Dro, Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru |
| Ken Alexander | Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Natalie Cooper | Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru |

| | |
|---|---|
| Denise Puckett | Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol |

**Yn Bresennol**

| **Enw** | **Sefydliad** |
|---|---|
| Dr Andrew Fowell (Cadeirydd) | Cadeirydd y Grwp Cyfeirio Arbenigol sy'n cynghori'r Pwyllgor ar yr Adolygiad o Wasanaethau Canser / Meddyg Ymgynghorol ym maes Meddygaeth Liniarol, Ysbyty Gwynedd |

**Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad**

| **Enw** | **Teitl swydd** |
|---|---|
| Jane Westlake | Clerc y Pwyllgor |
| Catherine Lewis | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |
| Kathryn Potter | Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau |

## Eitem 1: Ymddiheuriadau, Dirprwyon a Datgan Buddiannau

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Lynne Neagle. Nid oedd unrhyw un yn dirprwyo ar ei rhan.

1.2 Nid oedd unrhyw ddatganiadau buddiant.

1.3 Bydd cofnod gair-am-air o'r cyfarfod ar gael.

## Eitem 2: Adroddiad y Gweinidog
## HSS(2)-13-06(p1)

2.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod adroddiad y Gweinidog.

2.2 Ymatebodd y Gweinidog i gwestiynau'r Aelodau.

2.3 Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau i roi gwybod iddo am unrhyw faterion yr hoffent gael gwybodaeth amdanynt yn adroddiad y Gweinidog.

**Camau i'w cymryd**

Bydd y Gweinidog yn darparu papur i'w nodi am y sefyllfa o ran yr esgyrn a gafodd eu dwyn.

Bydd y Gweinidog yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf mewn adroddiad i'r Pwyllgor yn y dyfodol am godi t?am barcio mewn ysbytai.

**Eitem 3: Rhestr o Is-ddeddfwriaeth**
**HSS(2)-13-06(p2a) a HSS(2)-13-06(p2b)**

3.1 O blith yr eitemau ar y Rhestr o Is-ddeddfwriaeth, dewisodd yr Aelodau graffu ar yr eitemau a ganlyn:

HSS31 (06) – Rheoliadau Mangreoedd Di-fwg etc (Cymru) 2007, a

HSS32 (06) – Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2006

**Camau i'w cymryd**

Bydd y Clerc yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor Busnes bod y Pwyllgor wedi dewis craffu ar yr eitemau uchod.

Bydd y Gweinidog yn darparu papur i'w nodi yn amlinellu'r rhesymau dros yr oedi cyn gwneud Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (HSS39(04)).

**Eitem 4: Adroddiad Blynyddol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar Gydraddoldeb**
**HSS(2)-13-06(p3)**

4.1 Ymatebodd swyddog y Gweinidog i gwestiynau'r Aelodau ynghylch yr adroddiad.

**Eitem 5: Is-ddeddfwriaeth – Rheoliadau Deddf Safonau Gofal 2000 a Deddf Plant 1989 (Diwygio Rheoleiddio a Chwynion) (Cymru) 2006**
**HSS(2)-13-06(p4) a HSS(2)-13-06(p4)**

5.1 Bu'r Aelodau yn craffu ar y rheoliadau. Ni chyflwynwyd unrhyw welliannau na phwyntiau o eglurhad ymlaen llaw, ond ymatebodd y Gweinidog i'r ymholiadau ad hoc a wnaed yn ystod y cyfarfod.

**Cam i'w gymryd**

Cyflwyno adroddiad y Pwyllgor a'r Cadeirydd i ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Busnes

**Eitem 6: Adolygiad y Pwyllgor o Wasanaethau Canser**

6.1 Bu'r Dr Fowell yn rhoi adroddiad i'r Aelodau ar drafodaethau'r Grwp Cyfeirio Arbenigol ynghylch yr ymatebion i'r ymgynghoriad, ac yn ateb cwestiynau'r Aelodau.

6.2 Cytunodd y Pwyllgor y byddai'n canolbwyntio ar rai prif feysydd am weddill yr adolygiad, sef datblygiad y system CaNISC, comisiynu gwasanaethau, triniaethau a chyffuriau newydd, cynorthwyo cleifion drwy ofal, r? sector gwirfoddol, gwella ansawdd bywyd pobl sy'n byw gyda chanser, a datblygu cynllun canser.

## Cam i'w gymryd

Bydd y Gweinidog yn darparu papur i'w nodi ar y gwaith sy'n cael ei wneud o ran cadw llygad ar ddatblygiadau newydd, a hynny ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor ar 11 Hydref.

Bydd y Grwp Cyfeirio Arbenigol yn darparu cwestiynau i'r Aelodau cyn y sesiynau tystiolaeth lafar.

## Papurau i’w Nodi

Mesurau Diogelu Bournewood
HSS(2)-13-06(p6)

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Gorffennaf 2006
HSS(2)-11-06-min

Gwasanaeth y Pwyllgorau
Medi 2006